



GWEITHDREFN CWYNIION BARNWROL



CYNNWYS

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Nodau'r Polisi	1
3.	Cwmpas	1
4.	Cyflwyniad.....	1
5.	Egwyddorion.....	1
6.	Dehongli	2
	ASESIAD EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG	Error! Bookmark not defined.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) yn disgwyl i'w aelodaeth ymddwyn yn unol â'r safonau uchaf o ran moeseg, uniondeb ac ymddygiad wrth ddelio â chydweithwyr, cwsmeriaid, a phob rhanddeiliad arall.

2. NODAU'R POLISI

- 2.1 Pwrpas y polisi hwn yw gwneud yn glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw aelod o'r Tribiwnlys yn methu â glynu wrth y safonau hyn gan godi amheuaeth am enw da'r Tribiwnlys.
- 2.2 Dylai achwynwyr ymgysylltu â chynnwys y polisi hwn a sicrhau eu bod yn glynu wrtho.

3. CWMPAS

- 3.1 Mae'r gweithdrefnau hyn yn gymwys i holl randdeiliaid TPC.

4. CYFLWYNIAD

- 4.1 Wrth gyflawni dyletswyddau ar ran TPC mae'n bwysig cynnal hyder y cyhoedd. Gall methu â glynu wrth y safonau disgwyledig wneud niwed i enw da TPC a gallai esgor ar ddisgyblu neu ddiswyddo aelod o'r Tribiwnlys.

5. EGWYDDORION

- 5.1 Ni chewch ddefnyddio'r weithdrefn cwynion barnwrol os yw eich cwyn yn ymwneud â'r penderfyniad a wnaed gan yr aelodau neu'r rhesymu sy'n sail i'r penderfyniad yn unig, gan mai materion barnwrol yw'r rhain a all fod yn destun apêl neu gais am adolygiad barnwrol.

- 5.2 Dyma ambell fater a allai gael ei gynnwys:

- ymddygiad personol yr aelod yn ystafell y gwrandawriad neu'r tu allan iddi.

- sylwadau a wnaed gan aelod yn ystod y gweithrediadau nad ydynt yn uniongyrchol integral i'r penderfyniad barnwrol neu'r rhesymu sy'n sail iddo ac a allai leihau hyder y cyhoedd yn y broses farnwrol.

- 5.3 Pan fo'ch cwyn yn ymwneud ag aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi ymddwyn yn amhriodol mewn gwrandawriad, er enghraifft maent wedi bod yn anghwrtais, wedi defnyddio iaith sy'n peri tramgwydd neu'n anaddas, neu wedi eistedd er gwaethaf gwrthdaro buddiannau, dylech ysgrifennu at Lywydd TPC i'r cyfeiriad isod.
- 5.4 Yna ymchwilir i'r Gŵyn, ac os caiff ei chadarnhau, bydd y Llywydd yn delio â hi'n fewnol neu, os mai diswyddo yw'r dull gweithredu priodol, caiff ei chyfeirio i'w hystyried gan Weinidogion Cymru a Phanel Penodi TPC yn unol â Rheoliadau Tribiwnlys Cymru 2010, fel y'u diwygiwyd.
- 5.5 Pan fo cwyn yn ymwneud â'r Llywydd dylech ysgrifennu at y Prif Weithredwr a fydd yn gosod y mater gerbron y Cyngor Llywodraethu, heb gynnwys y Llywydd, i'w ymchwilio. Yna bydd yn pennu'r dull gweithredu priodol. Os bydd cwyn o'r fath yn cyfiawnhau diswyddiad yna caiff y mater ei gyfeirio at Weinidogion Cymru a Phanel Penodi TPC yn unol â Rheoliadau Tribiwnlys Prisiao Cymru 2010, fel y'u diwygiwyd.
- 5.6 Am gwynion ynglŷn ag aelodau'r Tribiwnlys gofynnir i chi ysgrifennu at llywydd@tribiwnlysprisio.cymru neu Y Llywydd, Tribiwnlys Prisiao Cymru, 22 Gold Tops, CASNEWYDD, Gwent, NP20 4PG.
- 5.7 Am gwynion ynglŷn â'r Llywydd nodwch 'at sylw'r Prif Weithredwr' ar eich ebost ac ysgrifennwch at gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru neu ysgrifennwch at Y Prif Weithredwr, Tribiwnlys Prisiao Cymru, 22 Gold Tops, CASNEWYDD, Gwent, NP20 4PG.

6. DEHONGLI

Nod y gweithdrefnau hyn yw rhoi arweiniad cryno i randdeiliaid ar safonau ymddygiad y mae'n rhaid i holl aelodau TPC gwrdd â nhw a sut mae gwneud iawn os methant â glynu wrthynt. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ddarpariaeth yn aneglur, dylid gofyn am gyngor ac arweiniad pellach gan y Prif Swyddog Gweithredol.

ASESIAD EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru wedi ystyried y cwestiynau canlynol ac wedi gwneud yr ymatebion canlynol wrth ddiwygio'r polisi hwn ar ...:

- A. Ydy'r polisi hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (b) peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

Ymateb:	O ran yr iaith Gymraeg mae gan y polisi hwn...	
	...effeithiau cadarnhaol	...effeithiau andwyol
(a) Cyfleoedd	Nac oes	Nac oes
(b) Triniaeth	Nac oes	Nac oes

- B. Wrth ddatblygu'r polisi hwn ydyn ni wedi ystyried sut y gallem ei lunio neu'i newid fel y caiff effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol pellach ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (b) peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

Ymateb:	Wrth ei ddatblygu rhoddwyd ystyriaeth i...	
	...effeithiau cadarnhaol	...effeithiau cadarnhaol pellach
(a) Cyfleoedd	Do	Do
(b) Triniaeth	Do	Do

- C. Wrth ddatblygu'r polisi hwn ydyn ni wedi ystyried sut y gallem ei lunio neu'i newid fel na chaiff y penderfyniad polisi effeithiau andwyol, neu fel y caiff effeithiau llai andwyol, ar — (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (b) peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

Ymateb:	Wrth ei ddatblygu rhoddwyd ystyriaeth i...	
	...effeithiau andwyol	...effeithiau llai andwyol
(a) Cyfleoedd	Do	Do
(b) Triniaeth	Do	Do